

Rhedeg Llywodraethau Lleiafrifol

Golygfa 1af y stori hon yw Siambr Tŷ'r Cyffredin Mawrth 1974 pryd mae Selwyn Lloyd yn cael ei lusgo i gadair y Llefarydd y tro cynta': 'We are all minorities now'

Ond gwerau anodd ei dysgu i bleidiau gwleidyddol, y pleidleiswyr y cyfryngau a'r swyddogion yn y gwasanaeth safle yw ystyr bod mewn lleiafrif go iawn.

Mae'r drefn bleidleisio drwy luosogaeth syml (nid o fwyafrif dros bawb, neu o gynrychiolaeth gyfrannol drwy bleidlais sengl ond trosglwyddadwy gan osod ymgeiswyr mewn trefn blaenoriaeth ac ail ddsbarthu pleidleisiau sy'n weddill) yn rhagfarnu o blaid y syniad mai'r unig lywodraeth sefydlog yw un fwyafrifol dros bawb!

Creadigaeth y drefn bleidleisio anghyfrannol ac anghyfartal sy'n para i Dy'r Cyffredin yn San Steffan hyd heddiw yw'r cysyniad fod llywodraeth nad yw'n llwyr fwyafrifol dros bawb mewn cynulliad etholedig yn wan ansefydlog neu 'grog'. Gair a ddaeth yn gyffredin o 1974 ymlaen yw hwn!

Anaml y disgrifir cynulliad felly yn fwy cywir fel 'senedd gytbwys' neu 'senedd heb fwyafrif dros bawb' fyddai'n fwy cywir yn dangos yr ystyr 'fod pawb yn lleiafrif nawr'.

Nid creadigaeth gyfansoddiadol resymegol yw cyfundrefn bleidiol wleidyddol y DU ond cynnyrch diwylliant gwleidyddol a chymdeithasol ag iddo wreiddiau hanesyddol dwfn. Cyn y Rhyfel Byd Mawr 1af bu cyfundrefn ddwyblaid sefydlog draddodiadol y Chwigiaid a'r Toriaid a newidiodd eu henwau yn Geidwadwyr a Rhyddfrydwyr tua chanol y 19g yn ethol ar sail etholfraint gyfyngedig o ran rhyw a dosbarth. Peth prin oedd senedd grog yn y 19g, hyd yn oed gyda dyfodiad aelodau seneddol Gwyddelig ar ôl deddf uno 1800. Drwy Ddeddfau Diwygio 1867 a 1884 helaethwyd y fasnachfraint ac ail-lunio ffiniau etholaethau. Roedd hyn yn cyd-ddigwydd a newid sylfaenol yng ngwleidyddiaeth yr Iwerddon. Wedi etholiad cyffredinol 1885 doedd gan y naill blaid na'r llall fwyafrif dros bawb a'r Blaid Seneddol Wyddelig yn dal y fantol gan wneud Ymreolaeth Iwerddon yn amod eu cefnogaeth. Ta beth ymrannodd y Blaid Ryddfrydol ar fater Ymreolaeth Iwerddon, gan arwain at etholiad cyffredinol arall ym 1886 pryd yr enillodd y Ceidwadwyr y nifer mwyaf o seddi gan lywodraethu gyda chefnogaeth gweddillion y Rhyddfrydwyr oedd yn gwrthwynebu Gladstone ac Ymreolaeth, y Rhyddfrydwyr Unoliaethol. Roedd etholiad 1886 yn bwysig am reswm arall hefyd oherwydd dyna'r pryd yr

etholwyd yr AS cyntaf erioed i osod hunanlywodraeth i Gymru yn ei fanifesto etholiadol gyda'r frawddeg 'Mae'n amser i'r Senedd wrandaw ar lais Cymru' Thomas Edward Ellis oedd ef a Meirionnydd oedd yr etholaeth!

Etholwyd dwy Senedd 'grog' ym misoedd Ionawr a Rhagfyr 1910 gyda niferoedd y Rhyddfrydwyr oedd yn llywodraethu a'r Ceidwadwyr yn glos. Cafwyd un arall grog ym 1929 wrth i'r Blaid Lafur gynyddu. Ers 1929 arweiniodd tri etholiad cyffredinol at Senedd Grog: Chwefror 1974 lle cychwynnodd y stori hon, Mai 2010 y Ceidwadwyr 306 Llafur 258, Rhyddfrydwyr Democrataidd 57, a'r trydydd fis Mehefin eleni.

Pa wersi y gallwn eu dysgu wrth gymharu profiad 'mam' honedig y seneddau sut mae rhedeg llywodraethau lleiafrifol mewn seneddau democrataidd wrth gymharu â seneddau eraill gan gynnwys yr agosaf atom?

Yn ôl a ni felly i Chwefror 1974 lle na chafodd unrhyw blaid fwyafrif dros bawb pan enillodd Llafur y nifer mwyaf o seddi (301, 17 yn fyr o fwyafrif dros bawb) y Ceidwadwyr 297 er i'r Ceidwadwyr gael y gyfran fwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd. Serch hynny, drwy gonfensiwn amheus ei sail barhaodd y Prif Weinidog mewn swydd yn ei swydd gan geisio creu clymblaid gyda'r Rhyddfrydwyr. Pan fu'r trafodaethau yn aflwyddiannus, fe ymddiswyddodd a daeth Harold Wilson i arwain llywodraeth leiafrifol. Parhaodd y llywodraeth honno am saith mis cyn galw ail etholiad yn Hydref y flwyddyn honno pryd y cafodd ei lywodraeth fwyafrif dros bawb o 3.

Yn dilyn cytundeb y Lib-Lab Pact a gynhaliwyd am 15 mis parhaodd y llywodraeth i sicrhau mwyafrif tan 1977, a threchwyd y llywodraeth dan arweiniad ei olynnydd mewn pleidiais o ddiffyg ymddiriedaeth ym Mawrth 1979 drwy un bleidlais, wedi i'r ddau AS gweriniaethol o Ogledd Iwerddon Gerry Fitt a Frank Maguire droi lan i 'ymatal yn eu person'.

Cafwyd llywodraeth leiafrifol Geidwadol yn Senedd y DU rhwng Rhagfyr 1996 a'r etholiad cyffredinol ym 1997, wrth i fwyafrif y Prif Weinidog John Major yn etholiad cyffredinol 1992 ddiflannu drwy encilio ac isetholiadau.

Digwyddiadau tebyg fu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl etholiad cyffredinol Cymru 2003, yn dilyn ennill 30 o seddi, ar ôl diarddel Peter Law AC ar y pryd am sefyll yn erbyn ymgeisydd Llafur swyddogol yn etholiad San Steffan 2005. Wedi hynny ar ôl Ail Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym ar ôl etholiad cyffredinol 2007 sefydlwyd cyfansoddiad yn gwahanu rhwng llywodraeth a chynulliad, gweithrediaeth a democratiaeth. Llywodraeth

leiafrifol oedd honno, yn yr ystyr nad oedd mwyafrif dros bawb gyda 26 o seddi. Yn dilyn trafodaethau aflwyddiannus am Glymblaid yr Enfys rhwng y Ceidwadwyr Cymreig, Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru crëwyd clymblaid llawn Cymru'n Un rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru. Yn etholiad cyffredinol Cymru 2011 gyda 30 o seddi sefydlwyd llywodraeth Lafur gyda mwyafrif o 0, a llywodraeth leiafrifol gyda 29 o seddi yn 2016.

Megis yng Nghymru lle mae'r elfen leiaf o gynrychiolaeth gyfrannol wedi arwain at duedd i lywodraethau lleiafrifol ac yna greu cytundebau amlbleidiol llac neu dynn, fyr neu hir dymor o neu glymbleidiol llawnach, felly hefyd yng Gweriniaeth Iwerddon ble mae'r drefn bleidleisio yn llawer mwy cyfrannog drwy'r bleidlais sengl drosglwyddadwy; PR-STV. Eithriadol iawn yw creu llywodraeth fwyafrifol ar sail seddi un blaid yn y Weriniaeth. 1977 dwi'n meddwl oedd y tro diwetha'. Yr hyn sy'n wahanol yn niwylliant gwleidyddol Gweriniaeth Iwerddon yw bod tebygolrwydd clymbleidiol a'i natur yn hysbys rhag blaen ac yn fater trafod yn yr ymgyrch etholiad. Ystyr arferol 'Dail crog yn y Weriniaeth yw methiant y glymblaid ddisgwyliedig i gyd-lywodraethu.

Bryd hynny mae grymoedd yr Arlywydd yn allweddol sef ei gallu i alw cwrdd o'r Dail neu'r Senedd pe bai llywodraeth yn ceisio defnyddio egwyl estynedig i atal pleidlais o ddiffyg ymddiriedaeth ac felly aros mewn grym! Mae gan yr Arlywydd rym hefyd i beidio â diddymu'r Dail a galw etholiad os yw'r Taoiseach yn colli pleidlais o ymddiriedaeth, gan gynnig cyfle i'r pleidiau eraill i gael cyfle i ffurfio llywodraeth yn lle mynd i etholiad arall. Digwyddodd hynny pan oeddem yn yr Iwerddon i goffau gwrthryfel y Pasg yn 2016. Roedd Fine Gael a Llafur wedi cyd-lywodraethu am y 5 mlynedd flaenorol ond collodd Llafur yn sylweddol yn yr etholiad. Roedd digon o seddi gan Fianna Fail i greu clymblaid enfys gyda phleidiau chwith ac annibynwyr, ond methwyd a chytuno yn enwedig ar bresenoldeb Sinn Ffein yn y 'glymblaid' Wrth I'r trafodaethau barhau heb lywodraeth newydd a bod nifer o weinidogion wedi colli eu seddau, cytunodd Fianna Fail i ganiatáu i lywodraeth newydd gael ei ffurfio drwy ymatal. Roedd ymataliad FF ar faterion ymddiriedaeth a chyflenwi cyllideb y llywodraeth yn ddigon i lywodraeth leiafrifol TG ffurfio llywodraeth gyda chefnogaeth grŵp o annibynwyr, yn gyfnewid am nifer o gonsesiynau polisi!

I gloi felly mae profiad Cymru ac am gyfnod hwy Gweriniaeth Iwerddon yn profi nid yn unig fod rhedeg llywodraeth leiafrifol nid yn unig yn bosibl ond yn ddymunol o safbwynt democratiaeth. Mater o ddysgu diwylliant gwleidyddol newydd an-San-Steffanaidd yw hyn i gyd, a mentraf ddweud ein bod wedi

dysgu hynny o brofiad yma yng Nghynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru
erbyn hyn!

DE-T (1214)